

Cofion a Chyfarchion

- Yr ydym yn parhau i gyflwyno Airys Jones (Peniel) i'r Arglwydd yn ein gweddïau. Diolchwn i Dduw amdani ac am y gofal mae'n ei dderbyn yn yr Inffirmari, gan hyderu y bydd yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn ei hangen a chariad Duw yn ei hamgylchynu.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elwyn a Barbara Williams (Henllan) fydd yn dathlu 65 mlynedd o fywyd priodasol y penwythnos hwn!

Pecyn Dydd Gweddï Byd-eang y Chwiorydd

Os oes unrhyw eglwys heb dderbyn y pecyn blyneddol er mwyn medru archebu'r taflenni a phosteri ar gyfer y Gwasanaeth Dydd Gweddï Byd-Eang y Chwiorydd 2017, plis cysylltwch â Mair.

I arbed costau postio, bydd angen i chi fod wedi archebu'r deunydd **erbyn dechrau mis Tachwedd**, gan nodi'n glir ar y daflen y bydd rhywun o Eglwysi Bro Aled yn casglu'r pecyn ar eich rhan. (A fyddwch cystal â gadael i Mair wybod hynny hefyd, os gwelwch yn dda?)

I ddod

- **CLWB YSGOL SUL SARON** yn cyfarfod yn Ffestri'r Capel pnawn Mawrth, Tachwedd 7fed am 3.15.
- **OEDFA DIOLCHGARWCH CAPEL CEFN BERAIN** nos Wener, Tachwedd 10fed am 7.00 gyda'r Parch. Dafydd Rees Roberts yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- **CYFLE I WELD GWEITHDY PENCRAIG FAWR, LLANSANNAN** (trwy garedigrwydd Dylan Roberts) bore Sadwrn, Tachwedd 11eg am 10.00. Disgwylir cyfraniad o £5 neu fwy, os gwelwch yn dda, fydd yn cael ei gyfrannu i Apêl Corwynt Cariad (Cymorth Cristnogol). Croeso i bawb.
- **HYFFORDDIANT DIOGELU GRWPIAU BREGUS** – Mewn eglwysi lle cynhelir gwaith gyda phlant/ieuenctid/oedolion bregus, mae RHAID i bob gwirfoddolwr ac ymddiriedolwr dderbyn gwiriad trwy lenwi ffurflen DBS, a hefyd fynychu hyfforddiant Diogelu Grwpiau Bregus. Mae un sesiwn hyfforddiant arall wedi ei drefnu ar gyfer nos Fawrth, Tachwedd 14eg yng Nghapel y Pentre, Llanrhaeadr am 7.00. Os cyfyd unrhyw gwestiwn, holwch Rhodri yn y lle cyntaf, neu'r Parch. Morris P. Morris, Eiriolwr Diogelwch EBC (01824) 705961.
- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDÏ BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghapel Tegid, Y Bala dydd Mercher, Tachwedd 15fed o 10.00 – 3.00.
- **OEDFA DEULU A CHINIO A PHWDIN I DDILYN YN LLANSANNAN** dydd Sul, Tachwedd 19eg am 10.30 i godi arian tuag at Apêl Corwynt Cariad. Cafwyd cyflwyniad gan Cheryl Williams yn gynharach eleni pryd dangoswyd gwaith Cymorth Cristnogol yn Ynysoedd y Philipinas, sef y wlad sy'n cael sylw Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn ystod 2017. Enwau i Dylan Roberts (870286) erbyn **dydd Sul, Tachwedd 12fed**, os gwelwch yn dda. Oedolion: £10, Plant: £2.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 29^{ain} Hydref 2017

Darlleniad y Dydd

Iago 1:16-18

(BCND tud.251 / BCN tud.230)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da bawb, a chroeso mawr i chi i'n hoedfaon a hithau'n Sul olaf Hydref (gydag awr ychwanegol yn y gwely)! Yr wythnos hon, bydd y plant yn cael mymryn o seibiant yn ystod hanner tymor a bydd miliynau o Gristnogion ar draws y byd yn coffáu digwyddiad pwysig yn yr Almaen 500 mlynedd yn ôl sy'n cael ei gyfeirio ato gan lawer fel dechrau'r Diwygiad Protestannaidd. Ar 31ain Hydref 1517, hoeliodd Martin Luther 95 pwnc oedd yn sail i ddadl gyhoeddus yn erbyn yr Eglwys Gatholig ar ddrws eglwys yn nhref Wittenberg, ac o'r fan honno ymlaen datblygodd y ffurf o Gristnogaeth y sefydlwyd ein henwadau Cymreig arnynt. Diolchwn i Dduw am hanes yr eglwys a'r ffordd y defnyddiodd wahanol bobl i gyhoeddi'r newyddion da am Iesu'r Achubwr trwy'r oesoedd. Gofynnwn hefyd ar i'r Arglwydd barhau i fod ar waith yn nerthol yn ein byd i alw gweithwyr i'w gynhaeaf. (Mathew 9:38)

Dros yr wythnosau nesaf, byddwn yn ystyried rhai o'r egwyddorion Beiblaidd oedd y tu ôl i'r Diwygiad Protestannaidd yn ystod Oedfa'r Fro. Wrth i ni wneud hynny, gobeithiwn allu gweld o'r newydd mor allweddol i'r Ffydd Gristnogol yw'r Beibl, ac mor ardderchog yw'r Gwaredwr graslon y mae'r holl Ysgrythur yn cyfeirio ato. Fel y gwelwn yn ein darlleniad ar y cyd o Lythyr Iago heddiw (1:16), caiff Cristnogion eu rhybuddio i beidio â chael eu camarwain, a'u hannog i lynu at athrawiaeth iach (Titus 2:1). Cwyn fawr nifer o'r diwygwyr oedd bod yr Eglwys Gatholig a'i dysgeidiaeth wedi mynd yn groes i hynny trwy gamarwain pobl yn ddifrifol i ddibynnu ar eu hymdrechion crefyddol eu hunain, yn hytrach nac ar aberth Crist drostynt yn unig. Oherwydd hynny, credai'r diwygwyr fod tragwyddoldeb yn y fantol wrth i bobl gymryd Duw yn ganiataol. Ac wrth gwrs, doedd y ffaith fod y Beibl yn annealladwy i'r mwyafrif o'r boblogaeth ddim yn help yn hyn o beth ychwaith. Ond trwy lafur arwrol Protestaniaid fel Martin Luther, a William Salesbury yng Nghymru, cyfieithwyd y Beibl a daeth Gair Duw yn ddealladwy i bobl ar draws Ewrop yn eu hieithoedd eu hunain. A ninnau'n cofio'r hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol, mae'n bwysig cydnabod nad oedd neb o'r diwygwyr yn ddi-fai (fel ninnau), ond serch hynny, gallwn roi clod i'r Arglwydd fod chwyldro'r Diwygiad Protestannaidd ymhen amser wedi effeithio'n ddwfn arnom fel cenedl a pheri i nifer dderbyn bywyd tragwyddol trwy adnabod Iesu Grist.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

Darlleniad Wythnos Nesaf

Salm 47:5-9 (BCND tud.516 / BCN tud.471)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 29^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro ar Daith** am 6.00 – y tro hwn yn **Saron**. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd Gwion yn pregethu.
- Mercher** – 1^{af} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Gwener – 3^{ydd} ➤ **Penwythnos Ieuencid (Bl. 7-11)** yng Ngholeg y Bala. Mae £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Os nad ydych wedi cysylltu, ffoniwch y Coleg i holi oes lle i chi. Os oes, bydd angen anfon y ffurflen i archebu lle ynghyd â blaendâl o £10 i'r Coleg – gallwch lawrlwytho ffurflen i wneud hynny trwy fynd i'r wefan: colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg, neu holwch Gwion am ffurflen.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 29^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth – 31^{ain} ➤ Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Cefn Meiriadog am 7.00 yng nghwmni y Parch. Bryn Williams, Pwllheli. Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 29^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 29^{ain} ➤ Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 2.00.

Cyhoeddiadau

Henllan a Groes

- Sul yma – 29^{ain} ➤ Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac i'r oedolion a'r plant yn Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 29^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.

Cardiau Nadolig

Mae yna ddeg gwahanol gynllun o gardiau Nadolig Cymraeg ar gael gan y Cyngor Ysgolion Sul ar gyfer 2017. Ar bob cerdyn mae cyfarchiad ac adnod, ynghyd â llun lliw pwrpasol. Ceir 8 o gardiau (o'r un cynllun) mewn pecyn a hynny am £2.00. Cynigir cynllun arbennig ar gyfer eglwysi ac Ysgolion Sul: am bob pecyn a werthir, bydd 50c yn mynd i gronfa eich Ysgol Sul neu eich eglwys chi.

Os carech archebu cardiau, rhowch eich enw a'ch dewis o gardiau ar y daflen sydd wedi ei dosbarthu i bob un o eglwysi'r Ofalaeth **erbyn Hydref 29ain**, os gwelwch yn dda, fel y gallwn eu harchebu mewn da bryd a chyn i'r stoc fynd yn isel.

(YSGRIFENYDDION: Rhowch archeb eich eglwys/Ysgol Sul i Mair erbyn diwedd y mis hwn, os gwelwch yn dda, fel y gallwn drefnu i'w casglu a'u dosbarthu i chi mor fuan ag y bydd hynny'n bosibl wedi hynny.)

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.